**Adroddiad ar**

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**
**Pentrebane Road**
**Y Tyllgoed**
**Caerdydd**
**CF5 3PZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn ysgol cyfrwng Cymraeg a gynhelir gan awdurdod lleol Caerdydd ar gyfer bechgyn a merched rhwng 11-18 blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 1,085 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 232 yn y chweched dosbarth.

Lleolir yr ysgol yn ardal y Tyllgoed yng Nghaerdydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr orllewinol y ddinas ac mae ganddi ddalgylch eang iawn. Mae tua 22% o'r disgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru, gyda rhyw draean arall yn dod o ardaloedd preswyl breintiedig y ddinas. Daw gweddill y disgyblion o ardaloedd nad ydynt yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais economaidd.

Mae gan 5.8% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn lawer yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.5%. Mae 15% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, gyda thua 1% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Daw tua 48% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg a'r gweddill yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg yn unig. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cefnogaeth addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r holl ddisgyblion yn astudio cyrsiau arholiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2008 a phenodwyd y dirprwy bennaeth yn Ionawr 2009. Mae'r tîm arwain yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth a chwe phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn 2014-2015 yw £4,514. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Caerdydd yw £8,783 a'r lleiafswm yw £4,127. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn safle 11 o'r 19 ysgol uwchradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth;
- gwelliant ym mherfformiad y disgyblion yn Saesneg TGAU;
- addysgu effeithiol mewn llawer o'r gwersi;
- lefelau presenoldeb sydd yn gyson uwch nag ydynt mewn ysgolion tebyg;
- ymddygiad da iawn gan bron pob un o'r disgyblion;
- yr ethos arbennig sydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a goddefgarwch; a
- llwyddiant yr ysgol wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg ymhlith y disgyblion.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 ym mron pob un o'r prif ddangosyddion yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim;
- mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf abl, yn gwneud digon o gynnydd o ganlyniad i her isel yn yr addysgu; ac
- mae ansawdd yr adborth yn y marcio yn amrywio'n ormodol tu fewn ac ar draws yr adrannau.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod y rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae gan yr uwch dîm rheoli weledigaeth gytûn ar gyfer yr ysgol, sydd yn ffocysu ar wella safonau a lles y disgyblion;
- bod gan yr ysgol sustemau priodol i reoli perfformiad staff;
- bod gan yr ysgol brosesau addas ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant priodol;
- bod gan reolwyr afael gadarn ar gryfderau'r ysgol a llawer o'r meysydd y mae angen eu gwella; a
- bod gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella.

Fodd bynnag

- nid yw'r sustemau sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr a miniog i hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd yr addysgu neu'r safonau;
- nid yw'r rheolwyr canol yn dwyn aelodau o'u hadrannau i gyfrif yn ddigon ffurfiol;
- nid yw'r targedau rheoli perfformiad yn ddigon mesuradwy ac nid yw'r mwyafrif ohonynt yn rhoi digon o bwyslais ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4;
- nid yw amser arweinyddiaeth bob amser yn cael ei ddefnyddio'n ddigon effeithlon; ac
- nid yw swydd-ddisgrifiadau'r holl aelodau staff yn gyfredol.

## Argymhellion

A1 Gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig yn y dangosyddion sydd yn cynnwys mathemateg

A2 Gwella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol

A3 Gwella trylwyredd ac ansawdd y marcio ac adborth i'r disgyblion

A4 Mireinio strwythur yr uwch-dîm rheoli i sicrhau defnydd effeithlon o amser arweinyddiaeth

A5 Sicrhau bod y targedau rheoli perfformiad yn rhoi pwyslais ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, a'u bod yn fesuradwy

A6 Mireinio'r system arfarnu gwersi fel ei bod yn cynnig disgwyliadau uchel ar gyfer ansawdd yr addysgu

A7 Sicrhau bod y rheolwyr canol yn dwyn aelodau'u hadrannau i gyfrif yn ffurfiol

A8 Diweddaru disgrifiadau swydd yr holl aelodau staff

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2010, mae perfformiad yn y dangosydd sydd yn cynnwys pum TGAU graddau A*-C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi dangos ychydig o gynnydd. O gymharu ag ysgolion tebyg eraill, mae'r perfformiad hwn yn dangos patrwm cymysg ond mae o gwmpas disgwyliadau. Mae cymariaethau o berfformiad yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau hefyd yn gymysg ond mae'n gyffredinol yn is na'r disgwyliadau. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol ar y cyfan rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4 yn y prif ddangosyddion.

Yng nghyfnod 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn llai na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg eraill yn y mwyafrif o'r pum prif ddangosydd. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd boddhaol yn erbyn eu targedau mewn ystod o ddangosyddion allweddol ond maent yn cyflawni ar lefel is nag mewn ysgolion tebyg eraill.

Ers 2010, yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella ac yn dangos perfformiad cymysg o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg eraill.

Yn y chweched dosbarth, mae canlyniadau'r ysgol yn gyson yn sylweddol uwch na ffigyrau'r awdurdod lleol a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru cyfan.

Ym mron pob gwers, mae'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau llafar da yn y Gymraeg a Saesneg. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd helaeth o'r iaith Gymraeg wrth gyfathrebu'n gymdeithasol ar hyd y coridorau ac ar y buarth. Yn y mwyafrif o wersi, mae'r disgyblion yn trafod yn gynhyrchiol mewn grwpiau neu barau. Maent yn gwrando'n gwrtais ar ei gilydd ac yn ymateb yn adeiladol i syniadau eraill.

Mewn llawer o wersi, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, maent yn adalw dysgu blaenorol yn briodol ac yn datblygu eu medrau meddwl drwy gymhwyso'u dealltwriaeth bynciol mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd. Mewn ychydig iawn o wersi, mae gan y disgyblion lefelau cymhelliant uchel ac maent yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn cydweithio'n gynhyrchiol wrth drafod cysyniadau cymhleth ac yn cyfiawnhau eu barn mewn dadleuon rhesymegol. Mae gan y disgyblion yn y gwersi hyn ddealltwriaeth glir iawn o'r hyn y mae angen ei wneud er mwyn gwella'u gwaith.

Mewn lleiafrif o wersi, mae'r disgyblion yn colli diddordeb yn eu gwaith. Yn y gwersi hyn, nid yw'r disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf abl, yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau na'u gwybodaeth bynciol o ganlyniad i her annigonol yn yr addysgu. Yn ogystal â hyn, yn y mwyafrif o lyfrau, nid yw'r disgyblion yn ymateb i sylwadau ym

marcio'r athrawon.  O ganlyniad, nid yw gwaith y disgyblion hyn yn gyfredol ac nid ydynt yn dysgu'n ddigon effeithiol o'u camgymeriadau.

Mewn llawer o bynciau, mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ar gyfer ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd.  Mae gan llawer o'r disgyblion eirfa bynciol a chyffredinol eang ac mae gan y mwyafrif afael briodol ar reolau gramadegol a sillafu. Gall y disgyblion mwyaf abl fynegi eu hunain yn huawdl ar lafar ac yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn trefnu eu gwaith mewn paragraffau'n ddigon cywir ac maent yn gwneud gormod o wallau sylfaenol wrth ysgrifennu.  Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn rhugl ac maent yn medru cywain gwybodaeth briodol o ystod o ffynonellau.  Gall y mwyafrif gymhwyso'r wybodaeth hon yn rhesymegol wrth lunio rhagfynegiadau neu esbonio casgliadau mewn gwaith ymchwil.  Dros amser, gwna'r disgyblion sydd yn dod i'r ysgol â medrau darllen gwan, gynnydd gwerthfawr mewn grwpiau ymyrraeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn briodol ar draws y pynciau.  Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth addas o sut i lunio graddfeydd synhwyrol i blotio graffiau'n gywir ac ychwanegu llinellau ffit gorau.  Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso ystod digon eang o dechnegau rhifedd ar draws y pynciau.

**Lles:  Rhagorol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r ychydig o'r achosion prin o fwlio sydd yn codi.  Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n heini ac maent yn ymwybodol o egwyddorion bwyta ac yfed yn iach.  Mae cyfran uchel o'r disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau buddiol i hybu ffitrwydd y clwb 5x60, yn ogystal â thimau chwaraeon yr ysgol.  Mae llawer o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd niferus i gyfranogi mewn gweithgareddau addysgol a diwylliannol gwerthfawr y tu hwnt i'r oriau ysgol arferol.

Mae bron pob disgybl yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd ac at oedolion.  Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn uchel iawn.

Ychydig iawn o waharddiadau dros dro a fu dros y blynyddoedd diwethaf ac ni fu gwaharddiad parhaol ers nifer o flynyddoedd.  Mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf yn ôl prydau ysgol am ddim mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae cyfranogiad disgyblion yng nghymuned yr ysgol yn gynhwysfawr.  Mae'r modd y mae disgyblion yn arwain grwpiau mentora cyfoes ac arloesol yn gryfder arwyddocaol.  Mae'r arfer hon yn arwain y sector.  Gwnânt gyfraniadau gwerthfawr trwy amrediad eang ac amrywiol o weithgareddau grŵp gwirfoddol, yn cynnwys prosiectau megis 'mentoriaid academaidd Plasmawr, 'cynghorwyr cam cyntaf' a 'darllenwyr ifanc Plasmawr'.  Mae'r grwpiau hyn yn cael effaith buddiol iawn ar les y disgyblion.  Yn ychwanegol, mae disgyblion yn elwa o fod yn rhan o grwpiau ymgyrchol fel 'Merched Mentrus' i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, 'Bechgyn Bonheddig' i ddatblygu medrau cymdeithasol, 'Digon' i daclo ymagweddau

homoffobaidd, ‘Balch’ i ddathlu cymdeithas aml-ddiwylliannol yr ysgol a’r ‘Bwytawyr o bwys’ i hyrwyddo pwysigrwydd deiet iach.

Drwy weithgarwch egnïol a phwrpasol y cyngor ysgol, cyfranna’r disgyblion eu safbwyntiau yn ymwneud â chyfleusterau’r ysgol, er enghraifft drwy gyfrannu at gynllunio a darparu ar gyfer canolfan ddysgu yr ysgol a chodi symiau sylweddol at elusennau. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu eu medrau rhyngbersonol yn eithriadol o dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn diwallu gofynion statudol a bodloni diddordebau a dyheadau’r disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 3, ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ac ehangu eu profiadau dysgu drwy astudio ail iaith fodern ym Mlwyddyn 9. Yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5, mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol sy’n bodloni dymuniadau’r disgyblion a chyflogwyr lleol, er enghraifft cwrs gwasanaethau cyhoeddus. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddisgyblion sydd mewn perygl o ddieithrio.

Mae’r ysgol yn cynnig arlwy helaeth ac ysgogol o weithgareddau i’r disgyblion tu allan i oriau ysgol.

Cydweithia’r ysgol yn gynhyrchiol ag ystod o fusnesau lleol er mwyn sicrhau addysg fuddiol gysylltiedig â gwaith i’r disgyblion.

Mae’r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae‘r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd ar draws y pynciau’n gynhwysfawr ac mae’r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm yn datblygu’n briodol. Drwy ystod o ymyraethau addas, cefnoga’r ysgol y disgyblion gyda medrau gwan yn llwyddiannus. Mae strategaethau pontio’r ysgol yn gynhwysfawr ac yn arwain at drosglwyddiad cwricwlaidd esmwyth.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm llawn drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ystod o gyfleoedd dychmygus i sicrhau bod medrau ieithyddol y Gymraeg, ac ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a hanes ein gwlad, yn ffynnu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth yn gref ac yn cael ei hatgyfnerthu drwy’r cysylltiadau gwerthfawr â Lesotho a Japan a thrwy waith y grŵp ‘Glôb’. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer materion yn ymwneud â chynaliadwyedd yn datblygu’n briodol gyda chymorth egnïol y grŵp ‘Eco’.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ran fwyaf o’r athrawon wybodaeth bynciol gynhwysfawr ac mae’r athrawon hyn yn fodelau iaith da. Mewn llawer o’r gwersi, ceir perthynas weithio gynhyrchiol.

Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau priodol i ennyn diddordeb y disgyblion a sicrhau her gynyddol.  Yn y gwersi hyn, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni.  Maent yn cyflwyno'r amcanion dysgu'n glir ac yn sicrhau bod y disgyblion ar waith yn syth.  Mae'r mwyafrif o'r athrawon yn defnyddio cwestiynau agored i brofi dealltwriaeth y disgyblion a chwestiynau dilynol i sbarduno ymatebion estynedig a datblygu dealltwriaeth.  Mewn ychydig iawn o wersi, mae'r athrawon yn symbylu dysgu cyflym a thrylwyr drwy gyflwyno ystod o weithgareddau ysgogol, cwestiynu'r disgyblion yn dreiddgar a gosod her uchel iawn iddynt.  Mewn lleiafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn sicrhau symudiad sionc i'r wers drwy osod terfynau amser penodol i dasgau.  Mewn llawer o'r gwersi, mae cynorthwywyr addysgu yn cynnig cymorth buddiol i unigolion penodol.

Mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i feithrin diddordeb y disgyblion ac mae tempo'r wers yn rhy araf.  Yn y gwersi hyn, nid oes gan yr athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni.  Nid yw'r athrawon yn y gwersi hyn yn defnyddio digon o gwestiynau penagored i brofi ac ymestyn y disgyblion; o ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau meddwl.  Yn ychwanegol, nid yw'r athrawon yn cyflwyno gweithgareddau addas i ymestyn y disgyblion mwyaf abl neu i gynnal disgyblion ag anghenion penodol.

Mae'r marcio'n gyfredol yn y rhan fwyaf o lyfrau, ond mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn amrywio gormod o fewn ac ar draws yr adrannau.  Mae lleiafrif o'r athrawon yn rhoi cyngor defnyddiol i'r disgyblion ar sut i wella.  Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid yw marcio'r athrawon yn ddigon trylwyr ac nid yw'n rhoi digon o arweiniad i'r disgyblion.  Yn ogystal â hyn, dim ond mewn lleiafrif o achosion y mae'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn ymateb i'r sylwadau ac yn cywiro'u gwaith.  Yn y mwyafrif o'r pynciau, mae cyfleoedd perthnasol i'r disgyblion ddysgu drwy asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r ymarferion hyn yn cynhyrchu camau dilynol defnyddiol i gynorthwyo'r disgyblion i wella safon eu gwaith.

Mae gan yr ysgol sustemau trylwyr i olrhain cynnydd.  Maent yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i staff ynghylch cyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion.  Gwneir defnydd priodol o'r wybodaeth hon i fentora disgyblion gan arweinwyr cynnydd a'r anogwyr dysgu.  Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau dilynol wedi arwain at ddigon o welliant yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch cyflawniad eu plant mewn nosweithiau rhieni ac adroddiadau interim a diwedd blwyddyn.  Mae'r adroddiadau'n rhoi darlun clir o gyflawniad y disgyblion a thargedau pwrpasol iddynt wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol trwy wasanaethau boreol a chyfnodau myfyrio.  Darpara'r ysgol amgylchedd gofalgar lle teimla bron pob un o'r disgyblion yn ddiogel.  Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer bwyta ac yfed iach.

Ceir darpariaeth werthfawr ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles disgyblion trwy'r cwricwlwm, gweithgareddau allgyrsiol a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol

gynhwysfawr.  Mae’r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei chynllunio’n ofalus iawn ac yn cynnwys amrywiaeth arbennig o weithgareddau o ansawdd uchel i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o amrediad eang o destunau perthnasol. Darpara’r ysgol gyngor gwerthfawr i ddisgyblion yn eu dewisiadau o gyrsiau neu yrfa. Derbynia’r disgyblion gymorth buddiol oddi wrth lu o asiantaethau allanol.  Mae’r tiwtoriaid cynnydd ynghyd â’r swyddog teulu a’r swyddog cyfranogiad yn darparu cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr.

Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn gynhwysfawr ac yn cael ei gymhwyso’n fedrus gan ran fwyaf yr athrawon.  Mae gan yr ysgol system fonitro presenoldeb o ansawdd uchel, ac mae cysylltiadau agos iawn â rhieni yn hyrwyddo hyn.

Ceir cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r athrawon arbenigol a’r cynorthwywyr dysgu yn sicrhau y caiff anghenion y disgyblion hyn eu diwallu’n effeithiol.  Caiff cynlluniau addysg unigol eu hadolygu’n rheolaidd, ac mae‘r rhieni a’r disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses hon.  Mae’r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau a strategaethau defnyddiol sydd yn cael eu gweithredu’n briodol gan y mwyafrif o’r athrawon.  Trwy weithio’n agos ag asiantaethau arbenigol, mae’r ysgol yn sicrhau bod anghenion disgyblion bregus yn cael eu diwallu’n llwyddiannus.

Mae’r trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Nodwedd gref o Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yw’r ethos arbennig sy’n perthyn iddi.  Yn greiddiol i ethos yr ysgol yw’r modd y mae pawb yn herio unrhyw achos o ystrydebu ac yn meithrin unigolion cyfrifol sy’n cynorthwyo a chefnogi ei gilydd yn gryf ac yn ymfalchïo yn amrywiaeth eu cymuned.  Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau’r ysgol yn bodloni gofynion statudol ac yn sicrhau cyfle cyfartal i’r holl ddisgyblion.  Mae gan yr ysgol gymeriad Cymraeg cryf iawn ac mae’n hyrwyddo defnydd o’r iaith ar bob achlysur yn gadarnhaol.

Ceir amrediad eang o adnoddau ac offer cyfoes o ansawdd uchel.  Mae arddangosfeydd symbylus ac enghreifftiau o waith y disgyblion yn y dosbarthiadau ac ar hyd y coridorau sydd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu llwyddiannau.  Mae gan yr ysgol gyfleusterau ymarfer corff o ansawdd uchel, yn cynnwys ystafell ffitrwydd, meysydd chwarae eang a chae aml-dywydd.  Mae’r ganolfan ddysgu’n adnodd gwerthfawr sy’n galluogi disgyblion i ddarllen er mwyn pleser a chynnal eu dysgu tu allan i oriau ysgol.

Mae’r adeilad a’r safle yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda ac mae’r toiledau a’r ystafelloedd newid yn lân.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir yn seiliedig ar sicrhau cyfle cyfartal i bawb gyflawni eu potensial sydd yn cael ei rhannu gan y rhan fwyaf o’r staff.  Caiff y pennaeth ei gefnogi'n gadarn gan y dirprwy bennaeth a’r tîm arweinyddiaeth.  Maent

yn cyflwyno'u gweledigaeth ar gyfer yr ysgol yn gyson ac, o ganlyniad, mae gan yr ysgol ethos arbennig ble mae disgyblion a staff yn teimlo'n rhan o gymuned ofalgar Gymreig. Sefydlodd y pennaeth ei dîm arwain estynedig ym Medi 2013 ond mae hwn yn rhy fawr ac mae ychydig o gyfrifoldebau aelodau'r tîm yn gorgyffwrdd. O ganlyniad, nid yw amser arweinyddiaeth yn cael ei ddefnyddio'n ddigon effeithiol bob tro. Yn ogystal, mae ychydig o arweinwyr yn treulio gormod o amser ar dasgau gweinyddol.

Yn gyffredinol, mae sustemau rheoli llinell yr ysgol yn glir ac yn sicrhau atebolrwydd priodol ar bron bob lefel. Mae'r strwythurau rheoli llinell yn cryfhau atebolrwydd y rheolwyr canol i aelodau'r tîm arwain. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr canol yn dwyn aelodau o'u hadrannau i gyfrif yn ddigon ffurfiol i godi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Cynhelir cyfarfodydd priodol ar bob lefel yn rheolaidd. Ar y cyfan, mae natur y trafodaethau yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant y pwyntiau gweithredu'n ddigon clir yn y mwyafrif o'r rhain i alluogi monitro effeithiol.

Nid yw llawer o ddisgrifiadau swydd staff wedi cael eu hadolygu neu eu diweddaru; fodd bynnag, caiff system rheoli perfformiad staff addysgu ei chymhwyso'n addas gan aelodau'r tîm arwain. Mae targedau rheoli perfformiad wedi eu cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid oes digon o bwyslais ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4 ac nid yw'r targedau rheoli perfformiad yn ddigon mesuradwy.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft datblygiad y medrau llythrennedd a rhifedd, Cymreictod a datblygu llwybrau dysgu 14-19.

Mae'r llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad priodol i rediad yr ysgol. Mae gan y corff llywodraethol ddisgwyliadau uchel a dealltwriaeth eglur o'r prif flaenoriaethau trwy waith effeithiol yr is-bwyllgorau. Mae'r llywodraethwyr yn deall eu rolau'n glir ac maent yn cyflawni rhan fwyaf o'u cyfrifoldebau statudol yn briodol. Maent yn derbyn gwybodaeth briodol ar agweddau ar berfformiad yr ysgol gan y pennaeth ac aelodau eraill o'r staff yn rheolaidd. Maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn addas am safonau cyflawniad y disgyblion. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cael eu cefnogi'n dda gan y corff llywodraethol. Fodd bynnag, nid yw her y llywodraethwyr wedi bod yn ddigon llwyddiannus i sicrhau cynnydd mewn meysydd pwysig yng nghyfnod allweddol 4.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol brosesau addas ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant priodol sydd wedi eu hymgorffori yn gadarn yng nghynllunio strategol yr ysgol. Mae'r prosesau hyn yn rhan reolaidd o waith yr ysgol ac yn cynnwys gweithgareddau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol wrth arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chynnal teithiau dysgu.

Mewn llawer o feysydd, mae gan yr uwch dim arwain ddealltwriaeth glir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn llwyddiannus wrth sicrhau gwelliannau, er enghraifft mewn Saesneg lefel 2, cyrhaeddiad disgyblion

ag anghenion arbennig, presenoldeb, ac yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3. Serch hynny, nid yw'r systemau sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr a miniog i hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd yr addysgu, safonau mewn gwersi, neu ddeilliannau mewn meysydd pwysig fel y dangosydd lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r uwch dim arwain a rheolwyr canol yn arsylwi gwersi yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r arfarniadau o'r arsylwadau'n rhy hael ac yn seiliedig ar feini prawf sy'n gosod disgwyliadau rhy isel ar gyfer yr addysgu. O ganlyniad, nid yw deilliannau'r broses hon yn rhoi darlun digon cywir o safonau gwaith y disgyblion nac ansawdd yr addysgu.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys dadansoddiad priodol o ddata perfformiad. Mae'r ddogfen yn dathlu cryfderau'r ysgol ac yn adnabod ychydig o agweddau priodol i'w gwella. Mae ansawdd yr adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn amrywio ond yn gyffredinol maent yn cynnig arfarniadau priodol ar sawl maes pwysig. Fodd bynnag, nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan na'r dogfennaeth adrannol yn adnabod y diffygion yn yr addysgu neu safonau mewn gwersi yn ddigon clir.

Mae cysylltiad priodol rhwng gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yr ysgol a'r adrannau. Defnyddir y wybodaeth o'r prosesau hunanarfarnu gan yr uwch dim arwain i osod blaenoriaethau addas ar gyfer yr ysgol ac i'r adrannau. Fodd bynnag, mae'r cynllun gwella ysgol gyfan yn cynnwys gormod o flaenoriaethau ac nid yw'r pwysicaf o'r rhain yn ddigon amlwg. Mae'r rhan fwyaf o'r meini prawf llwyddiant yng nghynlluniau gwella'r ysgol a'r adrannau yn glir a mesuradwy, ac yn nodi costau a chyfrifoldebau addas. Fodd bynnag, ar ychydig adegau, nid yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynlluniau adrannol.

Mae hunanarfarnu'r ysgol yn cynnwys safbwyntiau gwerthfawr staff, disgyblion a llywodraethwyr. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn holi rhieni am eu barn yn ddigon aml.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo partneriaeth gref gyda rhieni drwy gyfleoedd i fynychu cyfarfodydd, llyfrynnau cymorth i rieni, cyfathrebu rheolaidd, yn ogystal â'r polisi drws agored. Mae'r cysylltiadau agos a chynhyrchiol gyda'r ysgolion cynradd partner yn hwyluso'r broses o drosglwyddo ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ieithyddol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5, sy'n cynnwys ysgolion Cymraeg cyfagos, gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod a chwmnïau hyfforddi. Mae'r trefniadau hyn wedi hwyluso datblygiad yr ystod o gyrsiau sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion ac wedi sicrhau nad oes disgyblion yn gadael yr ysgol heb gymhwyster. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i sicrhau ansawdd y cyrsiau mewn partneriaeth a derbyn gwybodaeth am gynnydd ei disgyblion. Mae'r ysgol yn datblygu ei chysylltiadau â busnesau lleol a'r gymuned yn dda. Mae gan yr ysgol berthynas gynhyrchiol â sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos â nifer o bartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau amrywiol, i godi safonau a sicrhau lles pob disgybl. Mae cynllun ‘Bro Plas Taf’ yn rhoi cyfle i’r ysgol rannu adnoddau a chydweithio’n llwyddiannus i ddarparu cyfleoedd i nifer fechan o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae partneriaethau’r ysgol yn cael effaith briodol ar gynnydd disgyblion difreintiedig.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y pennaeth a'r rheolwr busnes afael gadarn ar reolaeth a goruchwyliaeth dros y gyllideb. Serch hynny, mae gan yr ysgol ddiffyg yn y gyllideb oherwydd toriadau diweddar. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi gweithio'n gynhyrchiol gyda'r awdurdod lleol i gytuno ar gynllun i leihau’r diffyg dros bedair blynedd. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi llwyddo i leihau'r diffyg a ragwelir yn barod.

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol i gyflwyno’r rhaglen gwricwlaidd eang a defnyddir y staff ategol yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff gymwysterau addas, gyda bron pob un yn addysgu ei bwnc arbenigol.

Mae gan yr ysgol systemau dilys ar gyfer monitro a dynodi anghenion datblygiad proffesiynol. Mae’r trefniadau hyfforddiant mewn swydd yr ysgol yn diwallu anghenion datblygiad proffesiynol staff yn gadarnhaol. Mae gan yr ysgol sawl gweithgor proffesiynol ar agweddau priodol fel datblygu llythrennedd, rhifedd, cydraddoldeb, cau’r bwlch tlodi a gwella dysgu ac addysgu. Yn gyffredinol, mae’r grwpiau hyn yn gweithio’n frwdfrydig ac yn dechrau cael dylanwad ar arfer broffesiynol y staff. Mae’r gweithgorau llythrennedd a chydraddoldeb yn enwedig wedi cyfrannu’n fuddiol at welliannau yn narpariaeth yr ysgol.

Defnyddia’r ysgol y grant amddifadedd yn foddhaol i alluogi disgyblion unigol i wneud cynnydd yn eu pynciau. Mae hyn wedi cyfrannu’n fuddiol at gynnydd disgyblion difreintiedig yng nghyfnod allweddol 3 ac wedi cael effaith briodol ar gyflawniad y grŵp hwn yng nghyfnod allweddol 4.

Mae darpariaeth y chweched dosbarth yn gost effeithiol, gyda’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus â phartneriaid i gryfhau effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Mae’r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion y chweched dosbarth yn dda iawn.

Yn ngoleuni’r safonau a gyflawnir, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2010, mae canlyniadau'r yr ysgol yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi amrywio ychydig iawn. Dros y cyfnod hwn, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gyson agos at ddeilliannau wedi'u modelu ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu. Yn 2010, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch yn ôl prydau ysgol am ddim; ers hynny, mae perfformiad yn yr hanner is yn ôl prydau ysgol am ddim.

Ers 2010, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gosod yr ysgol yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Yn 2010 a 2011, roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf yn ôl prydau ysgol am ddim. Ers hynny, mae perfformiad wedi bod yn yr hanner is neu'r chwarter meincnod isaf ac yn uwch na'r teulu mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ac mae'n gyson uwch na'r teulu ac ymhlith yr hanner meincnod uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn dwy o'r pum mlynedd diwethaf. Ers 2010, mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach wedi'i chapio yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pum blynedd diwethaf.

Ers 2010, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf ar lefel 2 yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf ac yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad yn lefel 2 Saesneg yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu ac yn y chwarter meincnod uchaf yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Ers 2010, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi amrywio ac mae'n uwch na'r teulu mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Ers 2010, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi amrywio'n sylweddol, ac yn gosod yr ysgol yn is na'r teulu ac yn yr hanner neu'r chwarter isaf o ysgolion tebyg.

Ar y cyfan, gwna'r disgyblion gynnydd boddhaol ar sail eu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol blaenorol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r bwlch rhwng berfformiad y bechgyn a'r merched yn llai nag ydyw o gymharu â'r teulu yn y mwyafrif o'r prif ddangosyddion.

Yn y pum mlynedd diwethaf, yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion cyffelyb yn y teulu yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, lefel 2 neu'r sgôr bwyntiau gyfartalog wedi'i chapio.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ond mae'n gyson uwch na chyfartaledd y teulu. Yn 2010, fe wnaeth y perfformiad hwn osod yr ysgol yn chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ers hynny, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o ran prydau ysgol am ddim. Ers 2010, mae perfformiad yn y Gymraeg ar lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uwch neu'r chwarter uchaf o ran prydau ysgol am ddim.

Dros yr un cyfnod, mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ac yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf neu'r hanner is yn ôl prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf ond yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ers 2010, yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner is neu'r chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn y dangosydd pwnc craidd wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ond mae'n uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Yn y chweched dosbarth, mae canlyniadau'r ysgol yn gyson uwch na ffigyrau'r awdurdod lleol a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Eleni, fe wnaeth pob un o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth lwyddo i ennill cymwysterau yn y chwe medr allweddol ar lefel 2 neu lefel 3.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 244 | 160<br>66% | 81<br>33% | 3<br>1% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 43% | 52% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 244 | 99<br>41% | 124<br>51% | 20<br>8% | 1<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 244 | 136<br>56% | 97<br>40% | 10<br>4% | 1<br>0% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 243 | 71<br>29% | 136<br>56% | 34<br>14% | 2<br>1% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 244 | 110<br>45% | 112<br>46% | 22<br>9% | 0<br>0% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 243 | 85<br>35% | 151<br>62% | 7<br>3% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 244 | 128<br>52% | 108<br>44% | 8<br>3% | 0<br>0% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 244 | 61<br>25% | 140<br>57% | 35<br>14% | 8<br>3% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 242 | 113<br>47% | 108<br>45% | 18<br>7% | 3<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 244 | 44<br>18% | 160<br>66% | 37<br>15% | 3<br>1% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 244 | 96<br>39% | 113<br>46% | 30<br>12% | 5<br>2% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 29% | 51% | 17% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 242 | 52<br>21% | 132<br>55% | 53<br>22% | 5<br>2% | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 242 | 109<br>45% | 123<br>51% | 10<br>4% | 0<br>0% | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 242 | 99<br>41% | 137<br>57% | 6<br>2% | 0<br>0% | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | |
| The staff respect me and my background | 243 | 113<br>47% | 122<br>50% | 7<br>3% | 1<br>0% | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 243 | 126<br>52% | 109<br>45% | 8<br>3% | 0<br>0% | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 108 | 44<br>41% | 50<br>46% | 11<br>10% | 3<br>3% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 90 | 32<br>36% | 50<br>56% | 5<br>6% | 3<br>3% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 159 | 98<br>62% | 58<br>36% | 1<br>1% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 159 | 115<br>72% | 42<br>26% | 0<br>0% | 1<br>1% | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 158 | 112<br>71% | 40<br>25% | 3<br>2% | 0<br>0% | 3 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 158 | 85<br>54% | 63<br>40% | 5<br>3% | 1<br>1% | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 159 | 80<br>50% | 67<br>42% | 3<br>2% | 0<br>0% | 9 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 158 | 59<br>37% | 89<br>56% | 2<br>1% | 0<br>0% | 8 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 159 | 92<br>58% | 61<br>38% | 1<br>1% | 0<br>0% | 5 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 159 | 60<br>38% | 80<br>50% | 5<br>3% | 1<br>1% | 13 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 157 | 81<br>52% | 61<br>39% | 7<br>4% | 0<br>0% | 8 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 159 | 73<br>46% | 69<br>43% | 6<br>4% | 1<br>1% | 10 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 159 | 103<br>65% | 54<br>34% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 152 | 67<br>44% | 56<br>37% | 7<br>5% | 1<br>1% | 21 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 158 | 59<br>37% | 82<br>52% | 10<br>6% | 3<br>2% | 4 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 158 | 93<br>59% | 57<br>36% | 4<br>3% | 0<br>0% | 4 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 159 | 63<br>40% | 69<br>43% | 10<br>6% | 0<br>0% | 17 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 159 | 89<br>56% | 63<br>40% | 0<br>0% | 1<br>1% | 6 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 157 | 57<br>36% | 60<br>38% | 4<br>3% | 1<br>1% | 35 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 159 | 97<br>61% | 58<br>36% | 2<br>1% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 156 | 97<br>62% | 53<br>34% | 2<br>1% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 40% | 48% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| William Thomas | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Heledd Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Edward Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |